# Trefniadau Craffu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili


Blwyddyn Archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4899A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 (2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cyfyngedig yw effaith craffu yng Nghaerffili, sy'n codi cwestiynau ynglŷn â'i werth am arian.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Cyfyngedig yw effaith craffu yng Nghaerffili, sy'n codi cwestiynau ynglŷn â'i werth am arian 7

Mae rôl craffu'n cael ei deall gan swyddogion ac aelodau ond yn ymarferol nid yw cyfrifoldebau wastad yn cael eu rhoi ar waith 7

Cynigir hyfforddiant a chymorth i aelodau, ond mae ein canfyddiadau'n codi cwestiynau ynglŷn ag effaith yr hyfforddiant hwnnw 8

Mae ymwneud cyfyngedig gan aelodau â gweithgarwch craffu ym maes cynllunio'n effeithio ar berchnogaeth aelodau ar eu gwaith 9

Gall fod diffyg effaith o ganlyniad i gyfarfodydd pwyllgorau craffu 10

Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd â chraffu, ac nid yw'r cyhoedd wastad yn deall ei ddiben 11

Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n llawn i werthuso effaith craffu na'i werth am arian 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Meini Prawf Archwilio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau'r Cyngor i ategu ei swyddogaeth graffu. Mae craffu effeithiol yn elfen allweddol o lywodraethu da ym mhob cyngor. Gall craffu effeithiol ddarparu rhwystrau a gwrthbwysau allweddol ar gyfer prosesau penderfynu llywodraeth leol gan wella gwasanaethau cynghorau a sicrhau bod penderfyniadau'n dryloyw. Gall swyddogaethau craffu fod â rôl bwysig hefyd o ran cyfrannu at ddatblygu polisi, cynnal adolygiadau penodol, monitro perfformiad a dwyn y weithrediaeth i gyfrif.

2 Fe gynhaliom ni adolygiad o drefniadau craffu yn y Cyngor yn 2018. Fe ddaethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gwerthfawrogi ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ond, er mwyn iddo wella ac ymateb i heriau yn y dyfodol, bod ar aelodau angen hyfforddiant, datblygiad a chymorth â ffocws mwy penodol i ddeall eu rolau craffu'n well a'u cyflawni'n effeithiol. Fe wnaethom dri chynnig ar gyfer gwella a oedd yn ymwneud â hyfforddiant i aelodau, eglurhau rôl Aelodau Cabinet, a phennu blaenoriaethau eglur ar gyfer gwella. Yn 2019, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein papur trafod, 'Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol''[1] a rhestr wirio i gyd-fynd ag ef[2].

3 Yn 2023, fe newidiodd y Cyngor drefniadau ei bwyllgorau craffu. Lle'r oedd ganddo bum pwyllgor craffu'n flaenorol, ar hyn o bryd mae ganddo dri phwyllgor gwasanaeth benodol sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae gan y Cyngor hefyd Gydbwyllgor Craffu, sy'n cynnwys yr holl aelodau anweithredol, sy'n cwrdd fel y bo angen i drafod materion sy'n cynnwys cylch gwaith mwy nag un pwyllgor craffu.

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025.

### Yr hyn a ganfuom

5 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw trefniadau'r Cyngor yn ategu craffu effeithiol?**

6 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Cyfyngedig yw effaith craffu yng Nghaerffili, sy'n codi cwestiynau ynglŷn â'i werth am arian:

- mae rôl craffu'n cael ei deall gan swyddogion ac aelodau, ond yn ymarferol nid yw cyfrifoldebau wastad yn cael eu rhoi ar waith;

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Papur Trafod: Chwe Thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol', Chwefror 2019

[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhestr wirio: Chwe cham i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol', 2019

- cynigir hyfforddiant a chymorth i aelodau, ond mae ein canfyddiadau'n codi cwestiynau ynglŷn ag effaith yr hyfforddiant hwnnw;
- mae ymwneud cyfyngedig gan aelodau â gweithgarwch craffu ym maes cynllunio'n effeithio ar berchnogaeth aelodau ar eu gwaith;
- gall fod diffyg effaith o ganlyniad i gyfarfodydd pwyllgorau craffu;
- nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd â chraffu, ac nid yw'r cyhoedd wastad yn deall ei ddiben; ac
- nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n llawn i werthuso effaith craffu na'i werth am arian.

7 Rydym yn pryderu bod rhai o'r canfyddiadau'n debyg i'r rhai a wnaethom yn ein hadroddiad yn 2018.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi eu hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
|---|
| **Rolau a chyfrifoldebau**<br>A1 Canfuom nad yw craffu wastad yn cyflawni pob agwedd ar ei rôl. I helpu i ymdrin â hyn, dylai aelodau o bwyllgorau craffu sicrhau eu bod yn:<br>• darllen adroddiadau cyn cyfarfodydd;<br>• dwyn y Cabinet i gyfrif, er enghraifft trwy annerch aelodau'r Cabinet yn uniongyrchol wrth ofyn cwestiynau, gan gyfyngu cwestiynau ar gyfer swyddogion i rai sy'n gofyn am eglurhad ffeithiol yn unig. |
| **Cymorth a hyfforddiant**<br>A2 Canfuom nad yw'r holl aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. I ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor:<br>• fwrw golwg o'r newydd ar ei hyfforddiant a chymorth i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion aelodau, yn enwedig aelodau llai profiadol. Dylai hyn ganolbwyntio ar sicrhau bod gan aelodau'r offer y mae eu hangen arnynt i fod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer gweithgarwch craffu.<br>• gweithio gydag aelodau i benderfynu a yw adroddiadau'n diwallu anghenion aelodau. |

**Argymhellion**

**Cynllunio gwaith**

A3 Canfuom mai cyfyngedig yw ymwneud aelodau â datblygu'r rhaglen waith craffu. I ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor fwrw golwg o'r newydd ar ei brosesau cynllunio gwaith i sicrhau:

- bod aelodau'n cael cyfleoedd i wneud cyfraniad ystyrlon i'r rhaglen waith; a
- bod pynciau i'w hystyried yn adlewyrchu risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor ar draws meysydd gwasanaeth.

**Ymgysylltu â'r cyhoedd**

A4 Canfuom mai ychydig iawn y mae'r cyhoedd yn ymgysylltu â gwaith craffu. I ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor fynd ati'n rhagweithiol i archwilio cyfleoedd i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd â gwaith craffu nad ydynt yn gyfyngedig i gyfranogi mewn cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol.

**Gwerthuso effaith**

A5 Canfuom fod trefniadau'r Cyngor i werthuso effaith craffu heb ddatblygu ddigon. I ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor

- symud y tu hwnt i fesur gweithgarwch craffu i werthuso effaith craffu;
- adnabod sut y gall wella cyfraddau ymateb Aelodau i'w arolwg hunanwerthuso; ac
- adnabod dulliau eraill o ddeall safbwyntiau Aelodau ar effeithiolrwydd craffu.

# Adroddiad manwl

## Cyfyngedig yw effaith craffu yng Nghaerffili, sy'n codi cwestiynau ynglŷn â'i werth am arian

### Mae rôl craffu'n cael ei deall gan swyddogion ac aelodau ond yn ymarferol nid yw cyfrifoldebau wastad yn cael eu rhoi ar waith

8 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi rôl trosolwg a chraffu fel rhan o drefniadau penderfynu a llywodraethu'r Cyngor. Mae hefyd yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer pob un o'r pwyllgorau craffu. Ar ei wefan, mae'r Cyngor yn nodi bod gan ei bwyllgorau craffu bedair prif rôl, sef:

- Dwyn y Cabinet a swyddogion fel penderfynwyr i gyfrif
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau i ddatblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y fwrdeistref sirol

9 Roedd aelodau a swyddogion y Cyngor yn gallu mynegi dealltwriaeth gyffredin am ddiben craffu a'u rolau hwy eu hunain o ran helpu i gyflawni'r diben hwnnw.

10 Mae aelodau a swyddogion y Cyngor yn cytuno bod dwyn y Cabinet i gyfrif yn rôl allweddol ar gyfer craffu, fel a nodir yn y cyfansoddiad. Yn ein hadroddiad i'r Cyngor yn 2018, canfuom fod aelodau o bwyllgorau craffu'n cyfeirio eu cwestiynau at swyddogion yn hytrach na'r Cabinet. Felly y mae hi o hyd. Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu'n rheolaidd ac yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r pwyllgor, ond mae'r rhan fwyaf o gwestiynau a thrafodaethau'n cael eu cyfeirio at swyddogion. Mae hyn yn cynyddu'r risg na chreffir yn effeithiol ar Aelodau Cabinet a'u penderfyniadau. Mae hefyd yn tanseilio i ba raddau y mae craffu'n cyflawni ei rôl i ddwyn y weithrediaeth i gyfrif, yn unol ag Adran 21 Deddf Llywodraeth leol 2000. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â chanfyddiad Estyn, a adnabu yn ei adroddiad arolygu yn 2024[3] fod aelodau etholedig yn gofyn cwestiynau heriol i swyddogion, ond nad ydynt wastad yn dwyn y Cabinet i gyfrif yn ddigon da.

11 Dywedodd rhai aelodau a swyddogion wrthym am gyfarfodydd yr oeddent hwy wedi eu mynychu lle'r oedd rhai aelodau i'w gweld fel pe baent heb baratoi, neu lle'r oedd yn amlwg o'r cwestiynau a oedd yn cael eu gofyn bod aelodau heb ddarllen eu papurau. Fe wnaethant hefyd godi'r mater bod rhai achosion wedi bod lle'r oedd adroddiadau am sefyllfa ariannol y Cyngor wedi cael eu cytuno neu eu nodi heb ryw lawer o drafodaeth.

12 O'n harsylwadau ni ar gyfarfodydd pwyllgorau, gwelsom fod trafodaeth am faterion arwyddocaol yn gallu bod yn gyfyngedig weithiau. Os nad yw aelodau wedi

[3] Estyn, Adroddiad ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Mehefin 2024

paratoi’n ddigonol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau, ni allant gyflawni eu rôl. Rydym yn dweud mwy am barodrwydd aelodau ym **mharagraff 16**.

## Cynigir hyfforddiant a chymorth i aelodau, ond mae ein canfyddiadau’n codi cwestiynau ynglŷn ag effaith yr hyfforddiant hwnnw

13 Pan wnaethom fwrw golwg yn flaenorol ar drefniadau craffu yn y Cyngor yn 2018, fe argymhellom ni fod y Cyngor yn gwella cyfleoedd hyfforddi a datblygu i aelodau. Ers hynny, mae’r Cyngor wedi darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, ond nid yw’r arlwy hyfforddiant ar gyfer aelodau eraill wedi datblygu’n sylweddol ers 2018.

14 Mae’r Cyngor yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr fel rhan o’r broses sefydlu ar gyfer aelodau, ond cyfyngedig yw’r cyfleoedd hyfforddi penodol ar gyfer craffu ar ôl yr adeg honno. Ceir risg efallai nad yw rhai aelodau wedi cael hyfforddiant am beth amser.

15 Mae aelodau hefyd yn cael llawlyfr Aelodau, sy’n ymdrin â materion tebyg i’r hyfforddiant ond sydd ar gael i aelodau gyfeirio ato yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw’r llawlyfr wedi cael ei ddiwygio ers i’r Cyngor newid nifer a chylchoedd gwaith ei bwyllgorau craffu, felly nid yw peth o’r wybodaeth ynddo’n gyfoes.

16 Mae’r Cyngor yn gofyn i aelodau gymryd rhan mewn ymarfer hunanwerthuso ddwywaith ym mhob tymor etholiadol. Fel rhan o’r ymarfer hwnnw, gofynnir i aelodau am eu hadborth yn erbyn cyfres o ddatganiadau.

- roedd y gyfradd ymateb yn yr arolwg diweddaraf (2024) ychydig dros 50%, neu 35 o ymatebion allan o 69 posibl;
- roedd 77% o’r ymatebwyr (neu 27 o aelodau) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf y ‘Cynigir y cyfleoedd hyfforddi a datblygu ym maes craffu y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol’;
- roedd 23% (neu 8 aelod) yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf â’r datganiad hwnnw; ac
- ni fynegodd 34 o aelodau farn neu ni wnaethant ymateb i’r ymarfer hunanwerthuso.

17 Yn ystod ein gwaith maes, awgrymodd rhai aelodau a swyddogion nad yw pob aelod yn cyfranogi’n llawn yn y broses graffu a’u bod weithiau i’w gweld fel pe baent heb baratoi digon. Canfuom ninnau hyn o’n harsylwadau ar bwyllgorau craffu. Mae hyn yn awgrymu ymhellach nad yw’r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer aelodau’n rhoi iddynt y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gyfranogi’n llawn yn y broses graffu.

18 Clywsom farn gymysg ynglŷn â’r hyfforddiant a datblygiad y mae aelodau’n eu cael. Clywsom dystiolaeth i awgrymu efallai fod nifer fach o aelodau’n teimlo wedi eu gorlethu gan faint o wybodaeth y maent yn ei chael a’r galwadau ar eu hamser. Felly, efallai nad ydynt yn manteisio ar yr holl gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael

iddynt. Ar y cyfan, canfuom fod risg nad yw rhai aelodau'n cael y cymorth y mae ei angen arnynt, a fydd yn effeithio ar eu gallu i graffu'n effeithiol.

## Mae ymwneud cyfyngedig gan aelodau â gweithgarwch craffu ym maes cynllunio'n effeithio ar berchnogaeth aelodau ar eu gwaith

19 Yn ein papur trafod a gyhoeddwyd yn 2019, 'Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'', fe wnaethom nodi nad yw rhaglenni gwaith craffu mewn nifer o gynghorau'n cael eu cynllunio a'u perchnogi gan aelodau o bwyllgorau craffu.

20 Yng Nghaerffili, gall aelodau awgrymu eitemau i'w cynnwys ar flaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, nid oedd yr holl aelodau y siaradom ni gyda hwy'n ymwybodol mai felly yr oedd hi. Mae pob pwyllgor yn ystyried ei flaenraglen waith fel eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod, heblaw am y Cydbwyllgor Craffu sy'n cwrdd ar sail ad hoc i ystyried eitemau penodol. Mewn cyfarfodydd yr arsylwom ni arnynt, gwelsom nad oedd rhyw lawer o drafodaeth am y flaenraglen waith.

21 Mae gan y Cyngor Grŵp Arweinwyr Craffu sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn anfynych ac nid yw wedi cwrdd ers mis Tachwedd 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, ni thrafododd y Grŵp raglenni gwaith. Felly nid oes gan y Cyngor fecanwaith gweithredol i aelodau o bwyllgorau craffu neu Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau craffu drafod y blaenraglenni gwaith ar lefel strategol, nac i ystyried dulliau eraill o gyflawni gweithgarwch craffu. Cyfyngedig felly yw'r cyfleoedd i aelodau o bwyllgorau craffu bennu eu hagenda eu hunain neu ddylanwadu ar gynnwys adroddiadau. Mae hyn yn cynyddu'r risg nad yw'r flaenraglen gwaith craffu'n cael ei pherchnogi a'i llywio gan aelodau craffu.

22 Roedd rhai aelodau y siaradom ni gyda hwy'n teimlo bod ymwneud y pwyllgorau craffu'n digwydd yn rhy hwyr yn y broses benderfynu iddynt gael effaith. Fe awgrymon nhw y byddai ymwneud ar adeg gynharach wrth i bolisïau gael eu datblygu'n ei gwneud yn bosibl iddynt ymgysylltu'n fwy a chael mwy o effaith.

23 Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau a gaiff eu hystyried ar agendâu pwyllgorau craffu'n ymdrin â chynigion neu benderfyniadau penodol sy'n mynd i fod yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn y dyfodol agos. Mae'n beth cadarnhaol bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu a'r Cabinet yn cyd-fynd â'i gilydd, a bod mewnbwn pwyllgorau craffu'n cael ei ystyried yn rhan arferol o broses benderfynu'r Cyngor. Fodd bynnag, gall canolbwyntio ar yr agwedd hon ar rôl pwyllgorau craffu olygu bod llawer llai o amser ac adnoddau ar gael ar gyfer agweddau eraill, pwysig ar weithgarwch pwyllgorau craffu, megis monitro perfformiad a datblygu polisi. Fel y mae rhai aelodau wedi'i ddweud, gall hefyd olygu bod mewnbwn pwyllgorau craffu'n digwydd ar ôl i'r elfennau allweddol o benderfyniad neu bolisi gael eu rhoi yn eu lle, sy'n cyfyngu ar effaith pwyllgorau craffu ar y penderfyniadau hynny.

## Gall fod diffyg effaith o ganlyniad i gyfarfodydd pwyllgorau craffu

24 Yn ystod ein cyfweliadau ar gyfer yr adolygiad hwn ac fel rhan o'n gwaith Asesu Sicrwydd a Risg, roedd rhwystredigaeth amlwg ymhlith swyddogion ac aelodau nad oedd cyfarfodydd pwyllgorau craffu'n cael effaith.

25 Canfu ein harsylwadau ar sampl o gyfarfodydd pwyllgorau mai cymysg oedd ymgysylltiad aelodau. Gwelsom enghreifftiau o gwestiynau perthnasol yn cael eu gofyn a chraffu effeithiol yn digwydd, ond gwelsom hefyd nad yw holl aelodau'r pwyllgorau'n cymryd rhan, ac mai ychydig o drafodaeth os o gwbl sydd am rai eitemau pwysig ar yr agendâu.

26 Mae'n bosibl mai un rheswm dros yr ymgysylltu cyfyngedig â gweithgarwch pwyllgorau yw lefel y manylder a'r cymhlethdod yn yr adroddiadau, gan ein bod wedi canfod bod gwahaniaeth barn ynglŷn â hyn ymhlith yr aelodau. Mynegodd rhai bryder bod adroddiadau'n anodd i'w darllen. Er na ddarganfuom unrhyw faterion arwyddocaol yn yr adroddiadau yr edrychom ni arnynt, mae cyfle i'r Cyngor ddatblygu ei ddealltwriaeth am yr hyn y mae ar aelodau ei angen o adroddiadau.

27 Canfu ein hadolygiad o agendâu pwyllgorau craffu fod eitemau i'w nodi'n cael eu cynnwys yn rheolaidd. Felly, mae'r effaith y gall pwyllgorau craffu ei chael ar yr eitemau hyn yn gyfyngedig.

28 Dywedodd aelodau a swyddogion wrthym fod trefniadau newydd y pwyllgorau craffu'n gweithio'n dda, er bod y farn a fynegwyd yn yr hunanwerthusiad yn llai cadarnhaol ynglŷn â phwyllgorau penodol[4]. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom gyfarfodydd pwyllgorau a oedd yn cael eu rhedeg yn dda ar y cyfan gydag ymgysylltu gan ystod o aelodau a gwahoddedigion, yn ogystal â rhai lle'r oedd yr ymgysylltu a thrafod yn fwy cyfyngedig.

29 Roedd y Cydbwyllgor Craffu'n uchel ei barch ymhlith swyddogion ac aelodau fel fforwm effeithiol i drafod materion arwyddocaol. Mae'r sylwadau llai cadarnhaol yn yr hunanasesiad yn awgrymu bod gan aelodau bryderon penodol ynglŷn â chyfuno'r pwyllgorau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

30 Dengys agendâu'r pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2024 fod y pwyllgor wedi cael nifer sylweddol fwy o adroddiadau a oedd yn ymwneud ag addysg o'i gymharu â'r gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn derbyn nad yw nifer yr eitemau ar yr agenda ynddo'i hun yn ddangosydd ar gyfer craffu effeithiol. Fodd bynnag, o ystyried arwyddocâd gwasanaethau cymdeithasol, o ran cyllideb a risg, ceir risg nad yw'r Cyngor yn craffu'n ddigonol ar un o'i feysydd gwasanaeth allweddol.

31 Fe wnaethom nodi hefyd yn ein papur trafod Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' y dylai gweithgarwch craffu ystyried ystod o ddulliau,

[4] Roedd 37% o'r ymatebwyr yn cytuno bod 'effaith lleihau nifer y pwyllgorau craffu i dri wedi cael ei lliniaru'n ddigonol trwy ddefnyddio cydbwyllgor craffu'.

y tu hwnt i adroddiadau swyddogion ar gyfer pwyllgorau ffurfiol ac ymchwiliadau mewn arddull gorchwyl a gorffen.

32 Mae Pwyllgorau Craffu wedi sefydlu grwpiau Gorchwyl a Gorffen, megis ar gyfleusterau parcio ceir, sydd wedi helpu i lunio polisïau corfforaethol. Ond ar y cyfan, canfuom fod gweithgarwch craffu yng Nghaerffili'n canolbwyntio'n nodweddiadol ar drefn lle mae aelodau'n cael ac yn ystyried adroddiadau swyddogion. Gall pwyllgorau glywed tystiolaeth gan bobl y tu allan i'r Cyngor a gall aelodau gymryd rhan mewn grwpiau gorchwyl a gorffen, ond ni chanfuom enghreifftiau lle'r oedd pwyllgorau craffu'n addasu eu dull ar gyfer y pwnc dan sylw nac yn datblygu dulliau arloesol o gasglu tystiolaeth. Pan ofynnom ni i gyfweleion am enghreifftiau lle'r oedd craffu wedi cael effaith, fe gyfeiriodd y rhan fwyaf at y Cydbwyllgor Craffu a rhai o'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

33 Yn ein papur trafod Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' a gyhoeddwyd yn 2019, fe wnaethom sylw ar effaith gyfyngedig y dull diofyn o gael adroddiadau swyddogion. Fe wnaethom hefyd amlygu bod yr amser a'r adnoddau a gymer i baratoi a chyflwyno adroddiadau niferus yn sylweddol. Yn bwysig, fe godom ni'r cwestiwn a yw hyn yn rhoi gwerth am arian i gynghorau. Mae hwn yn dal i fod yn gwestiwn perthnasol i Gaerffili.

## Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd â chraffu, ac nid yw'r cyhoedd wastad yn deall ei ddiben

34 Mae pwyllgorau craffu yng Nghaerffili'n dal i fod â dull traddodiadol o ymgysylltu â'r cyhoedd, fel a amlygwyd gennym hefyd yn 2018[5]. Mae cryn dipyn o ffordd i fynd o hyd i archwilio sut y mae pwyllgorau craffu'n mynd ati'n rhagweithiol i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd i helpu i oleuo eu gwaith.

35 Gall aelodau'r cyhoedd siarad a darparu tystiolaeth yn unrhyw un o bwyllgorau craffu'r Cyngor. Mae gwybodaeth am y broses yn hygyrch iawn trwy wefan y Cyngor. Yn gyffredinol, nid yw'r cyhoedd yn defnyddio'r broses honno ac mae cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd pwyllgorau'n anfynych. Wrth adnabod pynciau ar gyfer craffu, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried methodoleg nac ymgysylltiad y cyhoedd.

36 Fel a nodwyd ym **mharagraff 22**, mae pwyllgorau craffu'n aml yn ymgysylltu â phynciau penodol yn gymharol hwyr yn y broses benderfynu. Byddai ymgysylltu â phynciau ar adeg gynharach yn eu datblygiad yn rhoi rhagor o gyfleoedd i bwyllgorau craffu gasglu tystiolaeth gan ystod o sefydliadau ac unigolion. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod ystod o leisiau'n cael eu clywed a'u hadlewyrchu ym mhenderfyniadau'r Cyngor.

[5] Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol?, Ebrill 2019

37 Clywsom, lle trafodir mater y mae pobl yn teimlo'n gryf yn ei gylch, y byddant yn cyfranogi yn y cyfarfod craffu perthnasol. Er enghraifft, ym mis Medi 2024, cynhaliodd y Cyngor gyfarfod Cydbwyllgor Craffu i drafod opsiynau yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth Pryd ar Glyd ac atyniad ymwelwyr Llancaiach Fawr. Siaradodd aelod o'r cyhoedd ar bob eitem a daeth nifer o bobl i arsylwi ar y cyfarfod.

38 Clywsom gan rai o'r aelodau a ddwedodd, ar ôl y cyfarfod hwnnw, fod peth dryswch wedi bod ymhlith y cyhoedd ynghylch rôl craffu yn y broses benderfynu. Roedd rhai aelodau o'r cyhoedd dan yr argraff, am bod y pwyllgor craffu wedi argymell y dylai'r ddau wasanaeth barhau, bod y penderfyniad wedi cael ei wneud. Felly, roeddent yn siomedig ac wedi'u drysu pan gytunodd y Cabinet wedyn ag argymhelliad y pwyllgor craffu i gadw'r gwasanaeth Pryd ar Glyd, ond ac yntau wedi penderfynu peidio â chadw Llancaiach Fawr ar agor. Mae mynd ati'n rhagweithiol i geisio barn y cyhoedd ar adeg gynharach yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r Cyngor egluro disgwyliadau ac osgoi camddealltwriaeth.

## Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n llawn i werthuso effaith craffu na'i werth am arian

39 Nid yw'r Cyngor wedi newid ei ddull o nodi effaith craffu ers i ni adrodd ar graffu ddiwethaf yn 2018. Mae'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys adrannau ar graffu, ond nid yw'r naill na'r llall yn werthusol. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o effaith nac effeithiolrwydd gweithgarwch craffu ychwaith.

40 Ers ein hadroddiad yn 2018, mae'r Cyngor wedi cyflwyno hunanwerthusiad ar ffurf arolwg i aelodau. Mae'r hunanwerthusiad yn gofyn cwestiynau sy'n ceisio deall barn aelodau ynglŷn â threfniadau craffu ac fe'i cynhelir ddwywaith ym mhob cylch etholiadol. Trafodir canlyniadau'r hunanwerthusiad gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu, sy'n penderfynu pa gamau gweithredu yr hoffent eu cymryd o ganlyniad i ganfyddiadau'r arolwg.

41 Fe ymatebodd tri deg a phump allan o 69 o aelodau i'r arolwg yn 2024 (ychydig o dan 51%). Roedd hyn yn welliant o'i gymharu â'r gyfradd ymateb o 26% yn 2022. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r arolwg fel ei fecanwaith allweddol ar gyfer deall safbwyntiau'r aelodau am graffu. Felly, dylai ystyried sut y gall wella'r gyfradd ymateb i wneud yr ymarfer hunanwerthuso'n fwy ystyrlon. Dylai'r Cyngor hefyd adnabod dulliau eraill o ddeall safbwyntiau'r aelodau am effeithiolrwydd craffu.

42 Mae cyflwyno'r arolwg yn gam cadarnhaol ond ni all ond darparu rhan o'r darlun. Er enghraifft, nid oes gan y Cyngor unrhyw fecanwaith ar gyfer casglu barn swyddogion, y cyhoedd na phartneriaid eraill.

43 Nid oes gan y Cyngor ddull o asesu effaith ehangach craffu. Bydd trafodaethau ac adroddiadau'r Cabinet yn aml yn cyfeirio at y ffaith bod argymhellion pwyllgorau craffu wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei choladu na'i defnyddio fel modd i ddangos effaith craffu. Mae hyn yn bwysig fel bod y cyhoedd yn cael eu sicrhau bod penderfyniadau wedi cael eu herio i lefel briodol.

44 Ar y cyfan, mae cyfyngiadau yn ei ddull o werthuso effaith craffu'n tanseilio gallu'r Cyngor i ddeall ble y mae cyfle i wella. Yn bwysig, mae hefyd yn rhwystr i allu'r Cyngor i benderfynu a yw ei drefniadau craffu'n darparu gwerth am arian. Yn ein papur trafod Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' yn 2019, fe wnaethom nodi nad yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n mynd ati'n rheolaidd i ystyried effeithiolrwydd ac effaith eu swyddogaethau craffu yn berthynol i faint o adnoddau o ran arian ac amser a neilltuir iddynt.

# Atodiad 1

## Meini Prawf Archwilio

Y prif gwestiwn archwilio: **A yw trefniadau'r Cyngor yn ategu craffu effeithiol?**

| Cwestiynau Lefel 2 | Criteria |
|---|---|
| 1. A yw'r Cyngor wedi nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan o'i drefniadau trosolwg a chraffu? | • Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion mewn perthynas â chraffu, er enghraifft yng nghyfansoddiad y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir beth yw rheolau'r weithdrefn graffu.<br>• Ceir trefniadau i hwyluso craffu cyn penderfynu ac i helpu i lunio datblygiad polisi.<br>• Ceir cylchoedd gorchwyl eglur a chytunedig ar gyfer pwyllgorau craffu'r Cyngor. |
| 2. A oes gan y Cyngor drefniadau i gefnogi aelodau o bwyllgorau craffu a swyddogion? | • Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau ar gyfer cefnogi, hyfforddi a datblygu aelodau a fydd yn helpu'r swyddogaeth graffu i gyflawni ei deilliannau bwriadedig.<br>• Mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a datblygiad y mae'n eu darparu ar gyfer aelodau o bwyllgorau craffu a swyddogion.<br>• Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu'n cael cymorth gan y Cyngor i'w helpu yn eu rôl.<br>• Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall a chyflawni eu rôl.<br>• Mae gan aelodau fynediad at gyngor a chymorth yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt i'w helpu gyda'u rolau craffu. |
| 3. A yw'r swyddogaeth graffu'n blaenoriaethu ac yn cynllunio ei gweithgareddau i gyflawni'r effaith fwriadedig? | • Mae'r Cyngor yn rhoi cymorth i aelodau o bwyllgorau craffu i oleuo eu cynlluniau gwaith.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n cynllunio ac yn perchnogi'r gweithgareddau yn eu blaenraglen waith.<br>• Mae gan bwyllgorau craffu flaenraglenni gwaith sy'n gyfoes ac wedi eu cyhoeddi.<br>• Mae blaengynlluniau gwaith craffu'n ystyried faint o amser ac adnoddau allai fod eu hangen i graffu'n effeithiol ar bynciau.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n deall yr ystod o ddulliau craffu y gallant eu defnyddio ar gyfer pynciau arfaethedig.<br>• Mae pwyllgorau craffu wedi nodi nodau a diben eglur ar gyfer y pynciau y maent yn eu harchwilio.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n deall deilliannau bwriadedig eu gweithgarwch craffu arfaethedig.<br>• Mae aelodau o bwyllgorau craffu'n gwerthuso a ydynt yn cyflawni'r deilliannau bwriadedig hynny. |

| | |
|---|---|
| 4. A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cyfarfodydd pwyllgorau craffu'n gweithredu'n effeithiol? | • Mae gan y Cyngor ganllawiau eglur i weinyddu cyfarfodydd pwyllgorau craffu a grwpiau gorchwyl a gorffen/gweithgorau gan gynnwys pennu agendâu, defnyddio diweddariadau a chyflwyniadau ar lafar, adolygu cofnodion a datganiadau chwipiaid pleidiau.<br>• Mae swyddogion yn defnyddio templed adroddiad cyson ar gyfer yr holl eitemau ar agendâu pwyllgorau craffu.<br>• Mae gwybodaeth a ddarperir ar gyfer pwyllgorau craffu'n eglur ac yn hawdd i'w deall, ac yn berthnasol i'w cylch gwaith.<br>• Mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth dda am gylchoedd gorchwyl pwyllgorau craffu. |
| 5. A oes gan y Cyngor drefniadau i hwyluso ymwneud gan y cyhoedd â'i drefniadau craffu? | • Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi gwybodaeth eglur a hygyrch am y broses graffu.<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir sut y gall y cyhoedd chwarae rhan yn y rôl graffu.<br>• Mae'r Cyngor wedi archwilio sut y gall ddefnyddio technoleg i'r eithaf i'w helpu i ennyn ymgysylltiad y cyhoedd.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod y swyddogaeth graffu'n ymgysylltu mewn modd ystyrlon â gwybodaeth a barn gan ystod eang o aelodau'r cyhoedd. |
| 6. A yw trefniadau craffu'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i alluogi pwyllgorau craffu i gyflawni eu rôl a chyflawni eu heffaith fwriadedig? | • Mae craffu'n cael ei werthfawrogi fel rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn cael y cyfle i ddylanwadu mewn modd effeithiol ar y broses benderfynu.<br>• Mae aelodau etholedig a swyddogion yn dangos dealltwriaeth eglur am rôl a swyddogaeth pwyllgorau craffu fel a nodir mewn deddfwriaeth ac yng nghyfansoddiad y Cyngor.<br>• Mae eitemau ar agendâu'n nodi'n glir beth yw'r rôl y gofynnir i'r pwyllgor craffu ei chyflawni ac maent yn unol â'u cylch gorchwyl.<br>• Mae'r Weithrediaeth yn ymateb i adroddiadau ac argymhellion pwyllgorau craffu.<br>• Mae pwyllgorau craffu'n dwyn y Weithrediaeth i gyfrif.<br>• Gall y Cyngor ddangos effaith ei bwyllgorau craffu (er enghraifft, trwy ddarparu enghreifftiau o effaith gadarnhaol a budd eu gwaith). |
| 7. A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso effeithiolrwydd craffu? | • Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei drefniadau craffu'n rheolaidd, gan ddefnyddio mesurau o effeithiolrwydd gan gynnwys effaith.<br>• Mae effeithiolrwydd trefniadau craffu'r Cyngor yn cael ei ystyried fel rhan o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor wedi ymdrin â'r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn yr adroddiad yn 2019 ar ei drefniadau craffu[6]. |

[6] Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol?, Ebrill 2019

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.